## Ysgol Parc y Tywyn Parc y Tywyn

# Polisi Defnyddio a Chamddefnyddio Sylweddau

Mae Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau’r Plentyn (CRC) wrth galon cynlluniau, polisïau, arferion ac ethos ein hYsgol Parc y Tywyn. Fel Ysgol Parc y Tywyn sy’n parchu hawliau rydym nid yn unig yn addysgu am hawliau plant ond hefyd yn gosod esiampl o hawliau a pharch ym mhob perthynas – yn gysylltiedig ag Erthyglau 6, 33, 36 (CRC).

## Cymhwyso’r polisi

Mae’r polisi hwn yn berthnasol ar holl dir ac adeiladau’r ysgol. Mae’r polisi’n berthnasol hefyd ar unrhyw ymweliad ysgol.

## Rhesymeg

Mae Ysgol Parc y Tywyn wedi ymrwymo i iechyd a diogelwch ei haelodau a bydd yn cymryd camau i ddiogelu eu lles. Nid yw Ysgol Parc y Tywyn yn derbyn camddefnydd o gyffuriau neu sylweddau gan aelodau'r ysgol, na chyflenwi'r sylweddau hyn yn anghyfreithlon. Mae Ysgol Parc y Tywyn yn cydnabod pwysigrwydd ei rôl fugeiliol yn lles pobl ifanc, a bydd yn ceisio cefnogi pawb wrth ymdrin â sefyllfaoedd sy'n ymwneud â Sylweddau.

Mewn ymateb i’r pryderon yr ydym yn eu rhannu’n lleol ac yn genedlaethol dymunwn ddatgan, fel rhan o’n gofal am les ein disgyblion, fod Ysgol Parc y Tywyn yn credu ei bod yn ddyletswydd arni roi gwybodaeth ac addysg i bobl ifanc am ganlyniadau defnyddio a chamddefnyddio sylweddau. Mae’r ysgol yn mabwysiadu safbwynt cadarnhaol ar y mater hwn, gan gredu bod addysg iechyd yn rhan allweddol o Addysg Bersonol a Chymdeithasol y disgyblion i gyd.

Yn sylfaenol i werthoedd ac ymarfer ein hysgol mae'r egwyddor o rannu'r cyfrifoldeb am addysg ein pobl ifanc gyda’r rhieni, drwy roi gwybodaeth iddynt a'u cynnwys bob amser. Mae cyfathrebu a chydweithio effeithiol yn hanfodol er mwyn gweithredu’r polisi hwn yn llwyddiannus. Er ein bod yn cydnabod bod nifer y bobl ifanc sy’n defnyddio ac yn camddefnyddio sylweddau ar gynnydd, ystyrir ei bod yn bwysig cydnabod bod nifer fwy o bobl ifanc yn dewis peidio â defnyddio neu gamddefnyddio sylweddau. Byddwn yn parhau i gefnogi eu hanghenion gwahanol.

Rhannwyd y polisi'n 2 ran:

***1: Addysg defnyddio a chamddefnyddio sylweddau***

***2: Ymateb yr Ysgol Parc y Tywyn i ddigwyddiadau yn ymwneud â sylweddau***

## Beth yw'r Sylweddau?

## Mae'r ystod o sylweddau y mae'r polisi hwn yn ymdrin â hwy yn cynnwys

- Tybaco gan gynnwys e-sigaréts
- Alcohol
- Meddyginiaethau dros y cownter
- Meddyginiaethau presgripsiwn yn unig, gan gynnwys steroidau anabolig a benzodiazepines
- Sylweddau anweddol, gan gynnwys gyriannau aerosol, bwtan, toddyddion a glud
- Sylweddau anghyfreithlon, gan gynnwys heroin, cocên, ecstasi, amffetaminau, LSD, GHB a chanabis

## Addysg Camddefnyddio Sylweddau

Mae'r Ysgol Parc y Tywyn wedi ymrwymo i gyflwyno'r ***Cynllun Ysgol Parc y Tywynion Iach***.

Drwy ein cwricwlwm ABCh presennol a Maes Dysgu a Phrofiad Iechyd a Lles, mae ein disgyblion 3-7 oed yn cael cyfleoedd i wneud y canlynol:

- datblygu dealltwriaeth o beryglon yn y cartref a'r amgylchedd y tu allan
- deall bod yna sylweddau 'da' a 'drwg' gyda meddyginiaethau'n cael eu dosbarthu fel sylweddau 'da' a all wneud i chi deimlo'n well, tra mae sylweddau eraill yn beryglus.

Caiff ein disgyblion 7-11 oed gyfleoedd i wneud y canlynol:

- nodi cysylltiadau rhwng achos ac effaith
- gwahaniaethu rhwng 'ffeithiau', credoau a safbwyntiau
- ffurfio barn bersonol a gwneud dewisiadau gwybodus
- deall y gall gwneud penderfyniadau mewn perthynas â sylweddau effeithio ar ansawdd eu bywydau hwy eu hunain a bywydau pobl eraill
- deall beth yw pwysau cyfoedion a sut i wrthod / gwrthsefyll
- deall yr effeithiau niweidiol iddynt hwy eu hunain ac i eraill, gan gynnwys effeithiau tymor hir tybaco, alcohol, sylweddau cyfreithlon ac anghyfreithlon
- dysgu'r derminoleg gywir a roddir i amrywiaeth o sylweddau.

Mae pob un o'n disgyblion hefyd yn cael eu haddysgu am yr arfer 'Peidiwch â Chyffwrdd, Dywedwch' mewn perthynas â chyffwrdd neu yfed sylweddau sydd wedi'u taflu neu nodwyddau chwistrellu. Cyfarwyddir disgyblion i beidio â chyffwrdd ag unrhyw sylweddau y gallant ddod o hyd iddynt yn yr ardal leol a hysbysu oedolyn y gallant ymddiried ynddo neu'r heddlu.

Mae Swyddog Cyswllt Heddlu lleol ein hysgol Parc y Tywyn yn cyfrannu i Gwricwlwm Addysg Camddefnyddio Sylweddau yr Ysgol Parc y Tywyn fel rhan o Raglen Gyswllt Heddlu ysgolion Cymru Gyfan. Ceir Matrics Gwersi penodol y mae'n rhaid i ni eu cyflwyno yn ein hysgol. Mae’r gwersi canlynol o’r Matrics yn cyfrannu at Gwricwlwm Addysg Camddefnyddio Sylweddau ein hysgol:

**Cyfnod Sylfaen (CS);** ***Pwy? Beth? Ble?***

**Cyfnod Allweddol 2 (CA2):** ***Sylweddau Sinistr ac Felly, Beth Yw'r Broblem?***

Rhaglen Ysgolion
HEDDLU CYMRU
WALES POLICE
Schools Programme

## Matrics Gwersi 2022/23

| Blwyddyn Ysgol | Craidd Critigol | Darpariaeth Dargedig | Dewislen Ategol |
|---|---|---|---|
| Bl 1 | | **Bl1-2 Perthnasoedd Diogel /Cam-drin Domestig**<br>Hafan Ddiogel | **Bl0-2 Diogelwch**<br>Pobl sy'n Ein Helpu Ni<br>**Bl1 Diogelwch**<br>Chwarae'n Ddiogel |
| Bl 2 | | | **Bl2 Cyffuriau**<br>Pwy? Beth? Ble?<br>**Bl2 Ymddygiad**<br>Cywir neu Anghywir? |
| Bl 3 | | **Bl3 Diogelwch y Rhyngrwyd**<br>Cadw'n SMART | **Bl3 Bwlio**<br>Cerrig a Ffyn |
| Bl 4 | | **Bl4 Cyffuriau**<br>Sylweddau Sinistr<br>**Bl4 Diogelwch/Camdriniaeth**<br>Ffrind neu Elyn | |
| Bl 5 | **Bl5-6 Cyffuriau**<br>Dy Ddewis Di | **Bl5 Diogelwch y Rhyngrwyd /Bwlio Seiber**<br>Byddwch yn Seiber Ddiogel<br>**Bl5-6 Ymddygiad Gwrthgymdeithasol**<br>Wnes i Ddim Meddwl | **Bl5 Ymddygiad Gwrthgymdeithasol**<br>Y Parc<br>**Bl5-6 Ffonau Symudol**<br>Dychmygwch Hwn |
| Bl 6 | **Bl6 Camdrin Rhywiol ar Blant**<br>Stori Griff | | **Bl6 Cyffuriau/ Alcohol a Thoddyddion**<br>Felly, Beth yw'r Broblem?<br>**Bl6 Perthnasoedd Diogel**<br>Yr Hawl i Fod yn Ddiogel |
| Bl 7 | **Bl7 Cyffuriau/Alcohol**<br>Meddwl am Yfed | **Bl7 Secstio**<br>Pictiwr Peryg | **Bl7 Cyffuriau/SSN**<br>Newydd a Niweidiol<br>**Bl7 Canlyniadau Troseddu**<br>Dewis Kiddo |
| Bl 8 | **Bl8 Cyffuriau**<br>Edifar y Dydd | **Bl8 Diogelwch y Rhyngrwyd**<br>Edrychwch Pwy Sy'n Siarad<br>**Bl8 Llinellau Sirol**<br>Cwlwm Twyll | **Bl8 Bwlio**<br>Torri'r Cylch<br>**Bl8 Seiberdroseddu**<br>Peidiwch â Chamu at...<br>**Bl8 Radicaleiddio ac Ethafiaeth**<br>Egin Eithafiaeth |
| Bl 9 | **Bl9 Ecsploetio Rhywiol**<br>Twyll Peryglus<br>**Bl9 Cyffuriau/Alcohol**<br>Trwbl Dwbl<br>**Bl9-11 Cydsynio Rhywiol**<br>Na Yw Na | **Bl9 Perthnasoedd Diogel /Cam-drin Domestig**<br>Niwed Cudd | **Bl9 Diogelwch**<br>Pam Arfau? |
| Bl 10 | **Bl10 Cyffuriau**<br>Cyfraith Cyffuriau | | **Bl10-11 Cydsynio Rhywiol**<br>Ie/Na<br>**Bl10-11 Cyffuriau/SIEDs**<br>Gwedd Gwallgofrwydd<br>**Bl10 Amrywiaeth**<br>Achub Fi!<br>**Bl10 Diogelwch/Trosedd Ceir**<br>Dewis Diofal |
| Bl 11 | | | **Bl11-13 Diogelwch/ Gwrthdrawiadau Traffig**<br>Olivia |

Mwy o wybodaeth ar gael ar **SchoolBeat.cymru**

Mae gweithredu sesiynau Amser Cylch a gwersi Jigsaw ar draws yr ysgol hefyd yn cyfrannu’n sylweddol at ddatblygu’r medrau, yr agweddau a’r gwerthoedd y mae ar ddisgyblion eu hangen wrth iddynt symud ymlaen drwy bob cyfnod o fywyd.

**CYFRINACHEDD**

Gall fod yn briodol i staff ddarparu cymorth a chyngor un-i-un i ddisgyblion. Mewn amgylchiadau o'r fath, bydd staff yn gwneud disgyblion yn ymwybodol na allant gynnig cyfrinachedd llwyr. Bydd yr holl staff yn cadw at Bolisi Amddiffyn Plant yr ysgol.

## Gweithdrefnau ar gyfer rheoli digwyddiadau yn ymwneud â chamddefnyddio sylweddau

### Diffiniad o ddigwyddiad

Mae'n amhosibl rhoi rhestr lawn o ddigwyddiadau a all fod wedi eu cynnwys yn y polisi hwn, ond mae'r canlynol yn enghreifftiau o'r math o ddigwyddiadau sydd wedi eu cynnwys:

- sbwriel sy'n gysylltiedig â chamddefnyddio sylweddau yn neu o gwmpas y safle e.e. caniau, chwistrelli;
- amheuaeth a honiadau am weithgareddau unigolyn;
- datgeliad am gamddefnyddio sylweddau ar y safle neu rywle arall tra bo'r ysgol yn gyfrifol e.e. taith ysgol;
- plant yn dangos arwyddion clir o gamddefnyddio sylweddau;
- meddu ar sylweddau tra mae plant, pobl ifanc neu oedolion yn gyfrifoldeb yr ysgol;
- defnyddio sylweddau tra bod plant, pobl ifanc neu oedolion yn gyfrifoldeb yr ysgol;
- gwerthu neu ddelio mewn sylweddau tra bod plant, pobl ifanc neu oedolion yn gyfrifoldeb yr ysgol.

### Camau pellach a allai ddilyn digwyddiad

Ar gyfer digwyddiadau sy'n ymwneud â disgyblion a sylwedd anghyfreithlon, bydd yr ysgol yn defnyddio Ffurflen Adrodd am Ddigwyddiadau Cysylltiedig â Chyffuriau yr AALl.

Ar gyfer digwyddiadau eraill sy'n ymwneud â disgyblion, dilynir gweithdrefnau arferol yr ysgol ar gyfer cofnodi digwyddiadau ymddygiad fel y nodir yn y Polisi Ymddygiad.

Yn unrhyw gamau a gymerir gan yr ysgol yn dilyn digwyddiad, bydd lles y disgyblion dan sylw yn hollbwysig. Trefnir cefnogaeth i'r disgyblion dan sylw a'u rhieni/gofalwyr mewn trafodaeth ag asiantaethau priodol.

Gall camau disgyblu a gymerir yn erbyn disgyblion gynnwys gwaharddiadau cyfnod penodol ac, mewn amgylchiadau eithriadol, gwaharddiad parhaol. Bydd yr ysgol yn dilyn y canllawiau a nodir yn Camddefnyddio Sylweddau: Canllawiau i ysgolion yr AALl a Chylchlythyr 17/02 Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Yn dilyn digwyddiad, bydd yr ysgol hefyd yn adolygu'r addysg camddefnyddio sylweddau a roddir i ddisgyblion ac yn gwneud newidiadau i hyn yn ôl yr angen.

**ADOLYGIAD**

Caiff y polisi hwn ei adolygu bob blwyddyn neu yn gynt na hynny os bydd deddfwriaeth a chanllawiau'r Awdurdod Lleol yn newid.

| | New | Llofnod | Dyddiad |
|---|---|---|---|
| Cadeirydd y Llywodraethwyr | Mathew Davies | MDavies | 23/02/24 |
| Pennaeth | Angharad Williams | AWilliams | 16.07.25 |

# Atodiad E: Templed ar gyfer ffurflen cofnodi digwyddiadau camddefnyddio sylweddau

| Ysgol/Sefydliad: | Dyddiad y digwyddiad: | Dyddiad ac amser cofnodi:<br><br>Cofnodwyd gan: |
|---|---|---|
| Person(au) ifanc: | Enwau: | Rhif cyswllt cartref: |

| Disgrifiad o'r digwyddiad: |
|---|
| |

| Categori o ddigwyddiad | Gweithredu | Gan bwy | Wedi cysylltu â |
|---|---|---|---|
| | | | |
| | | | |
| | | | |

**Categoriau:** 1. Sbwriel cysylltiedig â chyffuriau 2. Meddiant 3. Cyflenwi 4. O dan ddylanwad 5. Ddim yn ddysgwr/aelod

| Enw/Disgrifiad o'r sylwedd: | Swm/Maint: | Gwaredwyd gan: | Cadwyd ymhle: |
|---|---|---|---|
| | | | |

Llofnodwyd: ______________________ Llofnodwyd: ______________________

Teitl: ______________________ Teitl: ______________________

Dyddiad: ______________________ Dyddiad: ______________________

# Atodiad B: Gweithdrefnau ymateb a awgrymir ar gyfer digwyddiadau camddefnyddio sylweddau


## Gweithdrefn ymateb a awgrymir: achosion meddygol brys

Mae'r weithdrefn hon yn berthnasol i sylweddau cyfreithlon a sylweddau anghyfreithlon.

Os yw rhywun yn anymwybodol neu mewn coma ar ôl defnyddio sylweddau, mae'n rhaid i gymorth cyntaf ddod yn gyntaf cyn gweithredu mewn unrhyw ffordd arall. Dylai meddwi neu benfeddwi difrifol, anymwybyddiaeth a lled-anymwybyddiaeth i gyd gael eu hystyried yn achosion meddygol brys. Os ydych yn ansicr, dylech ei drin fel achos brys meddygol bob tro.

**Achos meddygol brys**

↓



↓

**Cymorth cyntaf – Peidio â rhoi unrhyw beth i'w fwyta na'i yfed**
**Deialwch 999**

↓

**Ydy'r sylwedd yn bresennol o hyd?**

**Ydy** ↓ **Casglu unrhyw dystiolaeth o'r hyn sydd wedi cael ei gymryd i'w roi i staff ysbyty os yw'n ddiogel i wneud hynny** →

**Nac ydy** ↓ **Aelod o staff i fynd gyda'r dysgwr i'r ysbyty**

↓

**Hysbysu rhieni/gofalwyr, ALl a Chadeirydd y Llywodraethwyr**


↓

**Cofnodi'r digwyddiad a'r canlyniadau**

Wedi'i atgynhyrchu gyda chaniatâd caredig Rhondda Cynon Taf.

## Gweithdrefn ymateb a awgrymir: digwyddiad go iawn


Mae'r weithdrefn hon yn berthnasol i sylweddau cyfreithlon a sylweddau anghyfreithlon.




Wedi'i atgynhyrchu gyda chaniatâd caredig Rhondda Cynon Taf.

## Gweithdrefn ymateb a awgrymir: amheuon neu sïon

Mae'r weithdrefn hon yn berthnasol i sylweddau cyfreithlon a sylweddau anghyfreithlon.




Wedi'i atgynhyrchu gyda chaniatâd caredig Rhondda Cynon Taf.

| | Enw | Llofnod | Dyddiad Adolygu |
|---|---|---|---|
| Cadeirydd y Bwrdd Llywodraethol | *Matthew Davies* | MDavies | Mai 2026 |
| Pennaeth | *Angharad Williams* | EAWilliams | Mai 2026 |